Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

LLYSIAU O GYMRU AR GYFER YSGOLION
WELSH VEG IN SCHOOLS

# TUNELLI O NEWID

## LLYSIAU O GYMRU AR GYFER YSGOLION

2023 - 2025

**Adroddiad Cryno**

Ebrill 2025

# TUNELLI O NEWID



## **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** 2023 - 2025 **Adroddiad Cryno**

Gan Dr. Amber Wheeler ar ran Synnwyr Bwyd Cymru

**Y Rhai a Gyfrannodd at yr Adroddiad:** Katie Palmer, Sarah Gould, Edward Morgan, Elaine Blanchard, Alex Cook, Tony Little, Lorraine Powell, Emma Evans, Sian-Elin Davies, Caz Falcon, Hannah Gibbs, Pearl Costello, Dafydd Walters a Symon Dovey.

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales · Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government · Bwyd a Hwyl Food and Fun · Pontio'r Bwlch Bridging the Gap · Farming Connect Cyswllt Ffermio · Lantra · Castell Howell · monmouthshire sir fynwy · Cardiff & Vale Health Charity Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro



# RHAGAIR

Katie Palmer, Synnwyr Bwyd Cymru

Deilliodd Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion[1] o'r 'cynllun peilot Courgettes', prosiect a grëwyd gan grŵp bach o randdeiliaid dros baned yng Nghaerdydd.

**Ychydig wyddem ni ar y pryd y byddai un dunnell o courgettes yn troi'n uchelgais i gyflenwi llysiau organig wedi'u tyfu'n lleol i bob ysgol yng Nghymru.**

Nid ydym wedi cyrraedd y nod eto ond rydym ar y daith, ac mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r cynnydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae antur **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi cynnwys heriau'n ymwneud â moron, plant ysbrydoledig, staff arlwyo gwych, cyfanwerthwyr mentrus, Partneriaethau Bwyd cefnogol, arbenigedd sefydliadau, swyddogion hwyluso o'r llywodraeth, ymchwil weithredu ryfeddol, cydweithredu rhwng tyfwyr, ymddangosiadau yn y cyfryngau a chryn dipyn o hiwmor da.



**Mae'r gwaith hwn yn ymdrech enfawr ar y cyd ac mae ei lwyddiant yn dyst i'r egni cydweithredol a buddsoddiad rhanddeiliaid lluosog yng Nghymru; partneriaid yn y DU, a'n cyllidwyr.**

Gan fod gennym gymaint o wybodaeth i'w rhannu, rydym wedi trefnu ein hadroddiad **'Tunnell o Newid'** yn dair rhan

**1 Adroddiad Cryno Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**

**2 Adroddiad llawn Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**

**3 Stori Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.**

Rydym hefyd wedi cynhyrchu adroddiad technegol sydd ar gael ar gais at ddibenion ymchwil.

Mae'r **Adroddiad Cryno** yn amlygu cyflawniadau allweddol Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion dros y 2-3 blynedd diwethaf ac mae'n seiliedig ar Ymchwil Weithredu Gyfranogol - dysgu drwy weithredu wrth i'r gwaith ddatblygu ac addasu i heriau a rhwystrau, a delio â phethau nad oeddem wedi meddwl amdanynt. Mae'n amlygu'r agweddau pwysig ar lwyddiant ac yn dogfennu'r gwersi allweddol penodol a ddysgwyd yn yr ymgais i ehangu'r sector garddwriaeth yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.





Mae **Adroddiad Llawn Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn nodi'r rhesymeg dros gyflwyno'r cynllun, gan ganolbwyntio ar pam yr ydym yn credu mai'r dull hwn yw'r un iawn a'r hyn fydd ei angen er mwyn ehangu'r sector garddwriaeth yng Nghymru i'r fath raddau fel bod 25% o'r llysiau sydd eu hangen ar ysgolion cynradd yn cael eu tyfu'n lleol ac yn organig erbyn 2030.

Yn olaf mae **Stori Llysiau o Gymru** ar gyfer Ysgolion yn cymharu'r cyd-destun polisi â'r realiti ar lawr gwlad drwy adrodd stori Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion a'r bobl a fu'n rhan o'r cynllun. Mae'n cynnwys cyfoeth o fanylion sy'n seiliedig ar brofiad o'r heriau y mae'n rhaid eu goresgyn er mwyn datblygu cadwyni cyflenwi garddwriaeth lleol cynaliadwy, a gobeithiwn y bydd yn gyfraniad defnyddiol at y dystiolaeth i eraill sy'n gweithio i wneud y system fwyd yn decach ac yn fwy gwydn.

**Katie Palmer**
Synnwyr Bwyd Cymru

# TROSOLWG

## Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn fudiad o randdeiliaid sy'n ymdrechu i gynyddu garddwriaeth organig yng Nghymru er budd cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol

Cydlynir prosiect **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** gan Synnwyr Bwyd Cymru gan weithio gyda phartneriaid sy'n cynnwys Castell Howell, adran Garddwriaeth Cyswllt Ffermio a thyfwyr brwdfrydig.

Mae'r cyfanwerthwr Castell Howell wedi bod yn rhan annatod o Lysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion o'r cychwyn cyntaf, wedi gweithio gyda Synnwyr Bwyd Cymru ar y 'Peilot Courgette.' Mae Castell Howell yn deall y pwysau sydd ar y system fwyd; bregusrwydd cadwyni cyflenwi byd-eang, a'r angen i adeiladu gwytnwch lleol a buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol.

Trwy Lantra, mae rôl Garddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi canolbwyntio ar hyfforddi a chefnogi tyfwyr i ddarparu cynnyrch diogel o ansawdd uchel. Yn 2023, fe wnaethant hefyd ddatblygu 'Safon Cyflenwyr Tyfwyr ar raddfa fach' i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch bwyd deddfwriaethol.

Drwy fanteisio ar y cyfle yn y farchnad yn sgil polisi Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, a thrwy gefnogi cyrff cyhoeddus i fodloni eu gofynion statudol, mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ysgogi cynhyrchu llysiau organig yng Nghymru ac yn meithrin gwytnwch ar gyfer y dyfodol.






Mae'r gwaith hwn yn hanfodol os yw cyrff cyhoeddus o ddifrif ynglŷn â chyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ogystal â chefnogi cymunedau lleol a datblygu'r gallu i wrthsefyll siociau ac effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol.

Dechreuodd Synnwyr Bwyd Cymru ymchwilio i gaffael llysiau sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol am y tro cyntaf gyda'r 'Cynllun Peilot Courgettes[2]' – prosiect peilot a oedd yn cynnwys un tyfwr ac un cyfanwerthwr ac a ddosbarthodd bron i dunnell o courgettes i ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yn ystod Bwyd a Hwyl yn haf 2022. Hwyluswyd y Cynllun Peilot Courgettes gan Bwyd Caerdydd, Partneriaeth Bwyd leol y brifddinas, sy'n helpu i ddod â'r holl bartneriaid ynghyd, gan gynnwys Blas Gwent (tyfwr), gwasanaeth Arlwyo Addysg Cyngor Caerdydd; adran deieteg iechyd cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â chwmni Castell Howell.


Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

Cynllun Peilot Courgettes

Ionawr 2023

Llysiau Agroecolegol Cymreig
ar gyfer Ysgolion Cynradd Cymru

Gwerthusiad Ymchwil Gweithredol
gan Dr Amber Wheeler ar ran Synnwyr Bwyd Cymru

*Newid y system fwyd ...*
*un courgette ar y tro*

Yn 2023, gyda chymorth Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol Llywodraeth Cymru, datblygodd y prosiect caffael hwn i fod yn gam cyntaf **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, gan weithio gyda thri thyfwr ar draws tair ardal Awdurdod Lleol gyda chefnogaeth cydlynwyr y Partneriaethau Bwyd lleol yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy. Mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn cydnabod bod caffael cyflenwadau o lysiau o Gymru, sy'n gynaliadwy ac yn wydn yn ddrutach ar hyn o bryd ac mae cynllun peilot yn talu'r gwahaniaeth rhwng y pris hwnnw a'r pris arferol y mae Awdurdod Lleol yn ei dalu, gan ymchwilio i ddulliau i bontio'r bwlch hwnnw.

Yng ngwanwyn 2024, dyfarnodd Pontio'r Bwlch – rhaglen a arweinir gan Sustain, Growing Communities ac Elusen Alexandra Rose – gyllid ychwanegol i Synnwyr Bwyd Cymru i ehangu'r gwaith ymhellach a manteisio ar rwydwaith ehangach fyth o arbenigedd a chymorth. Gyda'r nod o ddatblygu model y gellir ei ehangu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn dogfennu taith y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** hyd yma.



**Blwyddyn:**

# 2022

**Peilot Courgettes**

**1 Tyfwr :** Blas Gwent



**Tunelli:**

**1**



**Llysiau:** Courgettes

**Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Bwyd:**

**1** = Caerdydd

Bwyd a Hwyl

**Ysgolion:**

**29** o ysgolion


**1500** o blant ledled Caerdydd

**Blwyddyn:**

# 2023

**3 Tyfwyr:**
Blas Gwent
Bonvilston Edge
Fferm Langtons






**Tunelli:**

**1**

**Llysiau:**
tomatos
aubergines
ciwcymbr
ffenigl
seleri
ysgallddail amryliw
sbigoglys
courgettes
ffa Ffrengig
pys
betys
blodfresych
winwns
pwmpenni cnau menyn
bresych coch
chennin



**Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Bwyd:**

**3** = Caerdydd
Sir Fynwy
Sir Gaerfyrddin

Bwyd a Hwyl a Thymor yr Hydref

**Ysgolion:**


**42 Dosbarthu llysiau i 42 o ysgolion:**

**29** o ysgolion yng Nghaerdydd

**3** ysgol sy' rhan o Bwyd a Hwyl Sir Gaerfyrddin

**10** ysgol yn Sir Fynwy yn ystod y tymor

**400** o blant yn ymweld â phedair fferm ar draws tri Awdurdod Lleol a



**360** o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau bwyd yn Sir Fynwy

**Blwyddyn:**

# 2024

## 8

**Tyfwyr:**
Bonvilston Edge
Fferm Langtons
Awen Organics
Gardd Enfys
Bremenda Isaf
Bwlchwernen
Underwood
Alfie Dans

**Tunelli:**

## 14

(15.8k o unedau

**Llysiau:**
Moron
brocol
tomatos
letys
ciwcymbr
winwns
cennin
courgettes

**Ar gyfer datblygu cynnyrch:**
pwmpenni cnau menyn
bresych deiliog
ysgallddail
blodfresych

**Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Bwyd:**

**6** = Caerdydd
Sir Fynwy
Sir Gaerfyrddin
Powys
Pen-y-bont ar Ogwr
Bro Morgannwg

Bwyd a Hwyl a Thymor yr Hydref

**Ysgolion:**

## 219

## o ysgolion

Bagiau bwyd gyda Llysiau o Gymru i deuluoedd yng Nghaerdydd a Sir Gaerfyrddin fel rhan o'r Cynllun Bwyd a Hwyl

## 200,000

o ddognau o lysiau organig

**Blwyddyn:**

# 2025

Rhagolwg

## 15

**Tyfwr**

**Tunelli:**

## 60

(80k o unedau)

**Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Bwyd:**

## 12

## 1 MILIWN

o ddognau o lysiau organig



# Y costau a’r manteision: y gweithredu yn 2024

- Drwy dalu llai na **£10,000** am y bwlch rhwng y pris arferol y byddai Awdurdod Lleol yn ei dalu a phris y cynnyrch organig roedd modd:
    - **prynu 14 tunnell o lysiau oddi wrth 8 cynhyrchydd organig Cymreig, gan roi incwm o £34,333 iddynt a darparu amcangyfrif o £127,034 o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i Gymru**
    - **amrywio cadwyni cyflenwi i ysgolion er mwyn helpu i ddatblygu gwytnwch y cyflenwad ar gyfer y dyfodol gan:**

**arbed 3 tunnell o $CO_2$e**

**sicrhau cynnydd o 35% mewn bioamrywiaeth**


**creu 1.2 o swyddi CALl ar ffermydd yng Nghymru**

**lleihau’r ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â risg uchel o ddioddef prinder dŵr**


- Cafodd Awdurdodau Lleol fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol, gan helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015[3], am ostyngiad o 25% (a dalwyd gan y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**), sy’n gost y gellid ei hamsugno’n raddol yn y dyfodol

▶ Cyfrannodd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, ymhlith mentrau eraill, at gynnydd o 20% yn yr arwynebedd tir a ddefnyddir i dyfu llysiau yng Nghymru ond gwelwyd gostyngiad yng ngweddill y DU


**Cymru**






**DU**



- Ers dechrau'r proiect, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y tyfwyr a'r Awdurdodau Lleol sy'n rhan ohono. Dymar cynnydd yn gryno:



# Yr hyn y gwnaethom ei ddysgu:

## Agweddau sylfaenol ar lwyddiant o ran datblygu cadwyni cyflenwi llysiau lleol teg, gwydn ac organig

1. **Meithrin perthnasoedd rhwng pobl yn y gadwyn gyflenwi ac o'i chwmpas a derbyn y dylai risg a gwobr gael eu rhannu'n gyfartal.** Ar hyn o bryd, tyfwyr sy'n ysgwyddo'r baich mwyaf o ran risg yn y gadwyn gyflenwi oherwydd y tywydd a chnydau'n methu.  Dylai pob rhanddeiliad ysgwyddo cyfran o'r risg hon

2. **Rhoi lle canolog i anghenion tyfwyr a ffermwyr, gan gynnwys talu'r pris cywir a chydnabod y pwysau ariannol y maent yn ei brofi a'r angen am gymorth.** Ar hyn o bryd, tyfwyr yw'r rhanddeiliaid sy'n cael y gyfran isaf o werth y gadwyn. Dylid rhannu'r gwerth yn gyfartal ar draws y system

3. **Parhau i gefnogi anghenion tyfwyr o ran hyfforddiant, diogelwch, systemau ac anghenion technegol.** Mae darparu hyfforddiant a chefnogaeth hyblyg ac addasadwy yn hanfodol





## Yr hyn y gwnaethom ei ddysgu:

**4** **Gweithio ar systemau i warantu cynnyrch cynaliadwy a diogel.** Gellir gwneud hyn drwy ardystiad organig ochr yn ochr â safon i gyflenwyr sy'n canolbwyntio ar agweddau'n ymwneud â diogelwch

**5** **Buddsoddi mewn seilwaith a gollwyd ar ffermydd ac o fewn y gadwyn gyflenwi ehangach.** Mae angen hyn ar gyfer prosesau allweddol, er mwyn creu arbedion maint a datblygu systemau logisteg cynaliadwy

**6** **Llunio cynllun cnydau yn seiliedig ar y galw: ehangu'r cyflenwad a'r galw ar yr un pryd.** Mae angen i gwsmeriaid ymrwymo ymlaen llaw er mwyn caniatáu i gynllun tyfu gael ei ddatblygu. Rhaid iddynt fod yn barod i weithio gyda thyfwyr i gefnogi cynnydd mewn cynhyrchiant ac mae hyn yn golygu sicrhau cyfatebiaeth rhwng llinellau amser cynllunio gwasanaethau arlwyo a'r tymor tyfu.


**7** **Gweithio gyda rheolwyr arlwyo a staff cymorth y gegin i sicrhau'r amser a'r capasiti i addasu i ddefnyddio llysiau lleol.** Efallai y bydd angen gwaith prosesu ychwanegol ar lysiau lleol neu efallai y bydd eu maint neu eu siâp yn wahanol i'r cyflenwad arferol ac efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol

**8** **Darparu cymorth ychwanegol/gwybodaeth/gweithgareddau/ymweliadau fferm i arlwywyr, athrawon, rhieni a phlant.** Bydd dysgu o ble y daw llysiau a pham mae defnyddio ffynonellau organig lleol yn bwysig yn cynyddu pa mor dderbyniol yw cynnyrch lleol a'r defnydd ohono







# GWELEDIGAETH

## Cenhadaeth i sicrhau bod 25% o'r holl lysiau a ddefnyddir mewn ysgolion yn rhai organig lleol erbyn 2030

**Erbyn 2030, rydym am sicrhau bod 25% o'r holl lysiau sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion yng Nghymru yn organig ac yn lleol.**

Mae gwaith **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi dangos bod modd cyflenwi llysiau gan gynhyrchwyr organig Cymreig drwy brosesau caffael ac i ysgolion. Mae wedi dangos bod cost hyn gymharol fach o gymharu â'r llu o fanteision a ddaw yn ei sgil.

***'Y llysiau drutaf yw'r llysiau na allwch chi eu cael'***

**Cyfanwerthwr**

# Gwireddu'r weledigaeth – 25% erbyn 2030

Byddai ychwanegu 3.3c fesul pryd y diwrnod at y gost a delir gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn caniatáu i **2 ddogn o lysiau organig** lleol gael eu cynnwys yn y prydau yn dymhorol ac yn arwain at y manteision canlynol:

Byddai prynu **901 tunnell** yn darparu **£2.21 miliwn** yn uniongyrchol i gynhyrchwyr Cymreig gyda lluosydd o 3.7, i roi amcangyfrif o **£8.2 miliwn** o fudd amgylcheddol cymdeithasol, economaidd

Buddsoddiad o
**£552,500**
mewn seilwaith

**74.3** o swyddi CALl ar ffermydd Cymru

**50** hectar o lysiau organig

Cynnydd o **35%** yn nifer yr adar mewn caeau

Mwy o gapasiti i gyflenwi a chynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymrus

Mwy o wydnwch yn y gadwyn gyflenwi

Arbed
**225.9 tunnel**
o garbon $CO_2$e

Lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â risg uchel o ddioddef prinder dŵr

# Y gymhariaeth

## £3.00 y pryd =

- Dim cefnogaeth i gynhyrchu llysiau Cymreig
- Dim capasiti i ddatblygu cyflenwad ar gyfer y dyfodol
- Dim gwydnwch yn sgil cadwyni cyflenwi l leol cryfach
- Dim cefnogaeth i swyddi ar ffermydd yng Nghymru
- Dim cynnydd mewn incwm ffermydd yng Nghymru
- Dim gostyngiad mewn carbon
- Dim budd i fioamrywiaeth
- Gweddillion plaladdwyr posibl ar lysiau a dŵr ffo yn y tarddle
- Dibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd



## £3.033 fesul pryd (3.3c yn ychwanegol)=

- Cefnogaeth i gynhyrchu llysiau Cymreig (tua £2,500 y dunnell fetrig) a mwy o gapasiti a gwydnwch i sicrhau cyflenwadau yn y dyfodol
- Mwy o swyddi ar ffermydd yng Nghymru (0.08 CALl fesul tunnell fetrig)
- Cynnydd yn incwm cyfartalog ffermydd ledled Cymru
- Mwy o wydnwch i gyflenwad yn y dyfodol
- Arbed carbon yn y gadwyn gyflenwi (0.25 Kg $CO_2$ e fesul kg yn dibynnu ar y llysiau a brynir)
- Cynnydd o 35% yn nifer yr adar mewn caeau
- Dim gweddillion plaladdwyr synthetig
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd





# CASGLIAD

Mae'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn parhau â'i genhadaeth yn 2025 drwy weithio gyda 12 awdurdod lleol a 15 o dyfwyr gan anelu i gynnwys mwy fyth o Awdurdodau Lleol, tyfwyr a chyfanwerthwy. Wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn parhau i ddysgu ac adeiladu ar ei ganfyddiadau er mwyn arloesi a datblygu prosesau caffael sy'n gwella llesiant pobl Cymru.

Gyda'r gwaith cynllunio cywir a buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith, gallai tua 25% o'r holl lysiau mewn ysgolion ledled Cymru fod yn rhai organig a dyfwyd yng Nghymru erbyn 2030 gan ddarparu'r holl fanteision a amlinellwyd eisoes.

**Dyma ein hargymhellion i wireddu'r weledigaeth honno:**



# ARGYMHELLION

## Tyfwyr, cynullwyr a chyfanwerthwyr



- Sefydlu **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fel endid sy'n cefnogi tyfwyr, sy'n datblygu cyfathrebu a systemau, ac yn cysylltu tyfwyr â'r farchnad gaffael i greu sector Llysiau Cymreig Cynaliadwy
- **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn parhau i ddatblygu systemau ac yn ymchwilio i ffermio, cynaeafu, storio, pecynnu a logisteg, ac arferion gorau ar gyfer cynnyrch ffres.
- **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn gweithio gyda mwy o gyfanwerthwyr
- **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn modelu'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer yr ehangu sy'n ofynnol a'r buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi hynny cyn gynted â phosibl












## Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol

- Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn ystyried ychwanegu tua 3c at gyllidebau prydau ysgolion cynradd (1% yn fwy nag a delir nawr) o 2026 ymlaen ar gyfer llysiau organig o Gymru a datblygu seilwaith, oherwydd y manteision cymdeithasol, amgylcheddol a gwydnwch a ddaw yn ei sgil i Gymru
- Llywodraeth Cymru yn cefnogi **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** i barhau i ddatblygu ac arloesi drwy gynllun yr Economi Sylfaenol ac Adnoddau Naturiol Integredig
- Llywodraeth Cymru yn cefnogi tyfwyr drwy haenau Dewisol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwaith Garddwriaeth Cyswllt Ffermio i ddarparu cymorth a hyfforddiant ychwanegol i dyfwyr yn ogystal â grantiau seilwaith garddwriaeth
- Llywodraeth Cymru yn defnyddio **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fel astudiaeth achos enghreifftiol o sut y gall caffael wella llesiant pobl Cymru yn unol â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus[4] (Cymru) 2023
- Edrych ar gostau gwaredu gwastraff ceginau Awdurdodau Lleol i sicrhau nad yw hyn yn arwain yn anfwriadol at weini mwy o fwydydd wedi'u paratoi ymlaen llaw yn hytrach na rhai ffres sy'n creu mwy o wastraff plicio llysiau





# Awdurdodau Lleol, ysgolion a phlant yn ogystal â chynullwyr

- Pob Awdurdod Lleol neu ranbarth gwledig yn anelu at gael fferm arddangos garddwriaeth sydd â chylch peiriannau, ac efallai gyfleusterau prosesu a storio llysiau eraill, sy'n cael eu cynnal a'u cadw ac sydd ar gael i dyfwyr yn yr ardal honno
- Pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu am Lysiau yn yr ysgol, yn cael y cyfle i dyfu llysiau, paratoi llysiau, blasu gwahanol lysiau a 'chwarae' gyda llysiau. Dylid cefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwla ac i gael mynediad at adnoddau drwy hyfforddiant staff priodol (er enghraifft Sgiliau Maeth am Oes) a'r adnoddau i'w rhoi ar waith.
- Rhoi plant wrth wraidd y broses o fwyta mwy o lysiau. Adeiladu ar waith asedau fel Nerth Llysiau a'r Awr Fwyd i ymgysylltu â phlant i ddeall eu hoffterau; helpu gyda dylunio bwydlenni, ac annog plant i flasu bwydydd newydd, er mwyn cynyddu'r llysiau a fwyteir a lleihau gwastraff.
- Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ymweld â fferm lysiau a chwrdd â thyfwr unwaith yn ystod eu haddysg yn yr ysgol gynradd a dylai pob ysgol gael man tyfu neu fynediad at un.
- Grymuso staff arlwyo ysgolion a rhoi'r cyfle iddynt 'fod yn greadigol' gyda llysiau a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau gofynnol a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu










# DIOLCH

Diolch yn fawr i gyllidwyr **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** a phawb a fu'n rhan o'r gwaith o wireddu **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Mae llwyddiant y prosiect i'w briodoli i'r cydweithio rhagorol ar draws y system fwyd a thu hwnt.

I ddysgu mwy, gweler: **Adroddiad Llawn Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** a **Stori Llysiau o Gymru mewn Ysgolion**

I weld yr adroddiad technegol, ebostiwch **Foodsensewales@wales.nhs.uk**

[1] Synnwyr Bwyd Cymru (Ymwelwyd yn 2025) Llysiau o Gymru ae gyfer Ysgolion https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk/good-food-movement/llysiau-o-gymru-ar-gyfer-ysgolion-cymru/

[2] Synnwyr Bwyd Cymru (2023) Peilot Courgette https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/sites/2/2023/01/AdroddiadCourgettes_Cym.pdf

[3] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfidol (Cymru) 2015 https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

[4] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 https://www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru#102213